



Consortium for Research in Deaf Education

Adroddiad Cymru 2019

Adroddiad CRIDE ar arolwg 2018/19 ar ddarpariaeth addysgol i blant byddar yng Nghymru

Cyflwyniad

Yn 2019 cynhaliodd Y Consortiwm Ymchwil i Addysg Fyddar (CRIDE) ei nawfed arolwg blynyddol ar staffio addysgol a'r gwasanaeth a ddarparwyd i blant byddar¹ ym mlwyddyn academaidd 2018/19². Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canlyniadau arolwg Cymru ac fe'i bwriedir ar gyfer penaethiaid gwasanaethau, llunwyr polisi mewn llywodraeth leol a chanolog ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg fyddar.

Mae'r dadansoddiad yn yr arolwg hwn wedi'i seilio ar ymatebion gan 15 o wasanaethau yng Nghymru, yn cynrychioli 22 allan o 22 o ardaloedd awdurdod lleol sydd yn gyfradd ymateb o 100%.

Dymuna CRIDE achub ar y cyfle i ddiolch i bob un o'r gwasanaethau am ymateb i'r arolwg, yn enwedig o ystyried y cyfyngiadau amser sylweddol sydd gan nifer fawr o'r gwasanaethau.

Crynodeb o'r prif ganfyddiadau

- Adroddodd gwasanaethau fod o leiaf 2,486 o blant byddar yng Nghymru; gostyngiad cofnodedig o 5% dros y flwyddyn ddiwethaf.
- Mae 80% o blant byddar oedran ysgol yn mynychu ysgolion prif ffrwd (lle nad oes darpariaeth arbenigol). Mae 9% yn mynychu ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau, a 10% yn mynychu ysgolion arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar. Cafodd 1% eu haddysg gartref.
- Cofnodwyd bod gan 28% blant byddar angen addysgol arbennig ychwanegol.
- Mae 6% o blant byddar yn defnyddio iaith lafar arall heblaw Saesneg yn y cartref.
- O'r plant sydd â byddardod difrifol neu lwyr, mae 66% ohonynt yn cyfathrebu yn defnyddio Saesneg llafar yn yr ysgol neu leoliadau addysgol eraill yn unig fel eu prif iaith, a 24% fel arfer yn defnyddio Saesneg ynghyd a chymorth arwyddion. 3% fel arfer yn defnyddio Cymraeg llafar, ac 1% fel arfer yn defnyddio Cymraeg llafar gyda chymorth arwyddion. Mae 6% fel arfer yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain.
- Y cyrchfan ar ôl ysgol mwyaf cyffredin i bobl ifanc byddar yw addysg bellach, gyda 54% yn cymryd yr opsiwn hwn.

¹ Noder at ddibenion adran hon yr arolwg hwn, defnyddir y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 oed, 11 mis (oni nodir yn wahanol yn y cwestiwn). Noder hefyd defnyddiwn y term byddardod parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffbrosis systig, neu dycinesia blewynol cychwynol. O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwyswn y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

² Gellir dod o hyd i adroddiadau blaenorol ar wefan Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn www.ndcs.org.uk/CRIDE (ar gael yn Saesneg yn unig) neu ar wefan BATOD yn <https://www.batod.org.uk/information/cride-reports/> (ar gael yn Saesneg yn unig).

- Mae o leiaf 66 swydd Athro Plant Byddar, a dim un o'r rhain yn wag. O'r 66 aelod o staff yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar, roedd 86% ohonynt yn meddu ar y cymhwyster gorfodol.
- Bu cynnydd bach o 1% dros y flwyddyn ddiwethaf yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig yn gweithio mewn swydd beripatetig, mewn darpariaeth adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol. Dros y tymor hir, mae wedi gostwng o 21% ers i arolwg CRIDE ddechrau yn 2011.
- Mae gan Athrawon Plant Byddar Peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 59 o blant byddar. Mae hyn wedi gostwng o 73 yn 2017 ac o 71 yn 2015.
- Mae 45% o Athrawon Plant Byddar Peripatetig dros 50 mlwydd oed ac felly yn debygol o ymddeol o fewn y 10 i 15 blwyddyn nesaf.
- Mae yna o leiaf 100.55 staff arbenigol arall CAL yn gweithio gyda phlant byddar yng Nghymru, cynnydd o'r 87.7 a adroddwyd yn 2017.
- Mae yna 24 darpariaeth adnoddau ar draws y 15 gwasanaeth i gyd. Mae hyn yn ostyngiad ers 2018 pan gydnabuwyd 25 adnodd darpariaethau gan CRIDE.
- Adroddodd 27% o wasanaethau eu bod nhw'n casglu data ar ganlyniadau Cyfnod Allweddol 4 i bob plentyn byddar. Mae'r un gyfran yn gwneud yr un peth ond am blant byddar ar eu llwyth achos yn unig.

Dehongli'r canlyniadau

Gofynnwyd i wasanaethau ddarparu ffigurau am y sefyllfa ar Ionawr 31 2019.

Mae'r arolwg yn cydnabod nad yw'r blychau a'r opsiynau a ddarparwyd bob tro yn ddigonol i ddisgrifio'r gwasanaethau a'r plant. Roedd gan wasanaethau'r cyfle i nodi sylwadau neu i egluro lle bu angen trwy'r arolwg.

Mae'n amlwg bod llawer o wasanaethau dal i gofnodi anawsterau wrth dynnu data am blant byddar yn eu hardal ac mae anghysondebau o hyd yn y modd y mae gwahanol gwestiynau yn cael eu hateb trwy'r arolwg. Weithiau mae'r gyfradd ymateb i gwestiynau unigol yn amrywio ac mae anghysondebau mawr weithiau yn ymddangos. **Felly dylid parhau i ddefnyddio'r canlyniadau â gofal.** Amlygwyd unrhyw wahaniaethau o bwys rhwng canfyddiadau'r arolwg hwn a chanfyddiadau arolygon blaenorol yn yr adroddiad. Mae'n rhaid bod yn ofalus hefyd oherwydd gwahaniaethau mewn cyfraddau ymateb i gwestiynau unigol a chamgymeriadau posibl yn narpariaeth y data rhwng yr arolygon.

Noder bod pob canran wedi'i thalgrynnu i fyny neu i lawr i'r rhif cyfan agosaf. Noder hefyd lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys '<5'. Mewn rhai achosion, mae'r cyfanswm wedi'i dalgrynnu i fyny neu i lawr, fel y dangoswyd gan serennig. Mae hyn i osgoi unrhyw beryg o adnabod unrhyw blant unigol. Mewn rhai achosion, mae hyn yn golygu na fydd cyfansymiau mewn tablau unigol, bob tro yn rhoi'r un cyfanswm.

Cynnwys

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru.....	Error! Bookmark not defined.
RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol arall.....	13
RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir	22
RHAN 4: Cefndir a methodoleg.....	26
Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol.....	27

RHAN 1: Plant byddar yng Nghymru

Faint o blant byddar sydd?

Yn 2019, gofynnwyd i wasanaethau roi manylion am blant byddar sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae eu gwasanaeth yn gweithredu³.

Wrth roi ffigyrau am nifer y plant byddar a oedd yn byw yn yr ardal, gofynnwyd i wasanaethau yn gyntaf i roi ffigwr cyffredinol ac wedyn darparu dadansoddiad yn ôl lefel byddardod, oedran a lleoliad addysgol. Nid oedd rhai gwasanaethau bob amser yn darparu'r data hwn yn gyson; rhoddodd rhai gwasanaethau ffigyrau wedi'u dadansoddi lle'r oedd y swm yn cynhyrchu cyfanswm gwahanol i'r un a rhoddwyd yn rhywle arall yn yr arolwg.

Felly nid yw'n syml i ddod o hyd i ateb clir i'r cwestiwn am faint o blant byddar sydd ac mae'n rhaid defnyddio'r canlyniadau â gofal. Am yr adroddiad hwn, rydyn ni wedi penderfynu defnyddio'r ffigwr uchaf a rhoddwyd, naill ai'r cyfanswm terfynol neu gyfanswm y ffigyrau wedi'u dadansoddi. Gwnawn hyn oherwydd rydyn ni am sicrhau ein bod ni wedi cofnodi cymaint o blant byddar â phosib. Lle y gwneir hyn, cyfeiriwn ato fel y "cyfanswm wedi'i addasu" trwy gydol yr adroddiad hwn.

Ymatebodd pob un o'r 15 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn. Yn seiliedig ar ymatebion hyn, **cyfanswm y plant byddar yng Nghymru wedi'i addasu yw 2,486**. Mae'r ffigur hwn wedi gostwng ers 2017/8 ac yn dod i ostyngiad o 5% dros y flwyddyn ddiwethaf.

Darperir ffigyrau heb eu haddasu yn y tabl dilynol.

³ Gofynnwyd i wasanaethau: Sawl plentyn sydd â byddardod parhaol sy'n byw yn yr ardal ddaearyddol lle mae'ch gwasanaeth yn gweithredu? Dylai'r atebion gynnwys: pob plentyn sydd â byddardod synwyrnerfol neu ddargludol parhaol unochrol neu ddwyochrol, ar bob lefel o fân i lwyr, yn defnyddio disgrifyddion BSA/BATOD. Ni ddylid cynnwys plant sydd â byddardod dros dro yn eich ymateb i'r cwestiwn hwn. Pob plentyn byddar, ni waeth p'un ai ydynt yn derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd gyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon. (Yn C40 gofynnwn am nifer y plant ar eich llwyth achos). Plant sy'n mynychu darpariaeth addysgol y tu allan i'ch ardal ond sydd fel arfer yn byw o fewn eich ardal. Noder at ddibenion adran hon yr arolwg, defnyddiwn y term 'plant' i gynnwys plant a phobl ifanc hyd at 19 mlwydd ac 11mis (oni nodir yn wahanol yn y cwestiwn). Noder hefyd defnyddiwn y term byddardod parhaol i gynnwys y plant hynny sydd â syndrom sydd yn cynnwys byddardod dargludol parhaol, microtia/atresia, camffurfiad y glust ganol, neu'r rheini sydd wedi cael llawdriniaeth ar y glust ganol fel mastoidectomi. Mae hefyd yn cynnwys y plant hynny sydd â chlust ludiog na ddisgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed, fel y rheini a anwyd gyda thafod hollt, Syndrom Down, ffibrosis systig, neu dycinesia blewynol cychwynnol. O dan fyddardod dargludol dros dro, cynhwyswn y plant hynny sydd â chlust ludiog sydd wedi derbyn cymhorthion clyw yn lle llawdriniaeth i osod gromed ond disgwylir iddynt 'dyfu allan' o'r anhwylder cyn iddynt gyrraedd 10 oed.

Tabl 1: Ffigyrau a gynhyrchwyd wrth gyfrifo nifer y plant byddar

	Cyfanswm a gynhyrchwyd
Cyfanswm wedi'i addasi	2,486
Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant yn gyffredinol	2,486
Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl grŵp oedran	2,426
Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lefel eu byddardod (yn cynnwys lle bo lefel eu byddardod ddim yn hysbys)	2,486
Cyfanswm a roddwyd pan ofynnwyd am nifer y plant, wedi'i ddadansoddi yn ôl lleoliad addysgol	2,477

Adroddodd y gwasanaeth lleiaf fod 55 o blant byddar yn byw o fewn ei ffiniau. Adroddodd y gwasanaeth mwyaf 396 o blant byddar. Y nifer cyfartalog o blant byddar sy'n byw mewn pob gwasanaeth oedd 166.

Cymhara'r tabl dilynol gyfanswm y plant byddar sy'n byw yng Nghymru â ffigurau o flynyddoedd blaenorol. Fel yr amlinellir yn y cyflwyniad, dylid defnyddio gofal wrth wneud cymariaethau ag adroddiadau cynharach oherwydd gwahaniaethau yn ansawdd yr ymatebion a'r cyfraddau ymateb rhwng yr adroddiadau.

Tabl 2: Nifer y plant byddar a gofnodwyd, dros sawl blwyddyn yn olynol

	Nifer y plant byddar a gofnodwyd
CRIDE 2019 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,486
CRIDE 2018	2,625
CRIDE 2017 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,642
CRIDE 2016	2,374
CRIDE 2015 (cyfanswm wedi'i addasu)	3,288
CRIDE 2014	2,880
CRIDE 2013 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,904
CRIDE 2012 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,743
CRIDE 2011 (cyfanswm wedi'i addasu)	2,755

Eleni, am y tro cyntaf, gofynnwyd i wasanaethau os oedd yna unrhyw faterion neu fylchau yn y data a ddarparwyd. Dywedodd chwe gwasanaeth (43%) eu bod yna. Roedd y materion yn cynnwys:

- nid oedd cronfeydd data yn gallu gwahanu plant gyda byddardod dros dro
- gwasanaethau yn meddu ar ddata am blant a phobl ifanc a chefnogir gan y gwasanaeth yn unig
- gwasanaethau yn meddu ar ddata am blant a phobl ifanc sy'n defnyddio cymhorthion clyw yn unig
- gwasanaethau yn meddu ar ddata am blant a phobl ifanc sy'n mynychu apwyntiadau awdioleg cyson yn unig
- ddim yn gwybod os oes yna blant a oedd heb eu cyfeirio gan awdioleg lle na roddir cydsyniad rhiant
- gwasanaethau ddim yn cadw data ar bobl ifanc byddar o fewn yr ystod oedran sydd mewn addysg bellach, addysg uwch neu leoliadau prentisiaethau.

Beth mae'r arolwg yn dweud wrthym am boblogaeth plant byddar yng Nghymru

Mae'r tablau isod yn darparu dadansoddiadau yn ôl oedran, lefel o fyddardod, a lleoliad addysg.

Tabl 3: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal yn ôl oedran

Grŵp oedran	Nifer y plant byddar a adroddwyd	Canran o'r cyfanswm
Blynyddoedd cynnar/cyn ysgol	269	11%
Oedran ysgol gynradd	1,103	45%
Oedran ysgol uwchradd	919	38%
Ôl-16 hyd at 19 oed	135	6%
Cyfanswm	2,426	

Wrth edrych ar nifer y bobl ifanc byddar 'ôl-16' a gofnodwyd, adroddodd dau wasanaeth ddim un person ifanc byddar yn y categori hwn ac adroddodd nifer o wasanaethau eraill nifer fach iawn yn unig yn y garfan hon. Mae CRIDE yn parhau i feddwl bod hyn yn adlewyrchu'r anawsterau mae rhai gwasanaethau yn cael i adnabod y bobl ifanc byddar hyn yn hytrach na bod dim un person ifanc byddar mewn addysg ôl-16 yn yr ardaloedd hyn.

Er mwyn cymharu, edrychwyd ar ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) ar amcangyfrifon poblogaeth yn ôl oedran⁴ i weld os oedd unrhyw wahaniaethau yn y gyfran o blant mewn gwahanol grwpiau oedran. Dylid nodi ni ofynnodd CRIDE am oedran penodol plant ond yn hytrach os oeddynt o "oedran ysgol gynradd", ayb felly dylid cymryd y data isod fel bras amcan yn unig. Hefyd, gwyddys bod nifer yr achosion o fyddardod yn amrywio yn ôl oedran, sy'n adlewyrchu'r ffaith bod nifer o blant byddar yn dod yn fyddar. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau yn y tabl isod yn uniongyrchol. Ond mae'r ffigurau yn awgrymu bod awdurdodau lleol yn tan-gofnodi nifer y bobl ifanc byddar ôl-16 yn eu hymatebion i CRIDE.

Tabl 4: Cyfran y plant a phobl ifanc yn ôl oedran

ONS (data canol 2018)		CRIDE	
Categori	Canran yr holl blant	Categori	Canran o'r cyfanswm
Plant 0 i 3 oed	19%	Cyn ysgol	11%
Plant 4 i 11 oed	42%	Cynradd (dosbarth derbyn i flwyddyn 6)	45%
Plant 12 i 16 oed	24%	Uwchradd (blwyddyn 7 i 11)	38%
Pobl ifanc 17 i 19 oed	15%	Ôl-16	6%

4

<https://cy.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationestimatesforukenglandandwalesscotlandandnorthernireland>

Tabl 5: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lefel eu byddardod

Lefel byddardod	Nifer y plant byddar a gofnodwyd	Canran o'r cyfanswm (lle y bo'n hysbys)
Unochrol	430	18%
Mân	566	24%
Cymedrol	833	35%
Difrifol	315	13%
Llwyr	261	11%
Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys')	2,405	
Nid yw'n hysbys	81	
Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys')	2,486	

Tabl 6: Nifer y plant sy'n byw yn yr ardal, yn ôl lleoliad addysgol

Math o ddarpariaeth addysgol		Nifer y plant byddar	Canran o'r cyfanswm (lle bo'n hysbys)
O fewn yr awdurdod lleol	Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol	104	4%
	Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol	90	4%
	Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref	15	1%
	Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (yn cynnwys academiâu ac ysgolion rhydd)	1,768	71%
	Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (e.e. Eton)	<5	0%
	Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd	179	7%
	Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir)	221	9%
	Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol)	27	1%
Y tu allan i'r awdurdod lleol	Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol	0	0%
	Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (yn cynnwys academiâu ac ysgolion rhydd)	19	1%
	Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth)	6	0%
	Darpariaeth adnoddau mewn ysgolion prif ffrwd	25	1%
	Ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir)	10	1%
	Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir)	6	0%
	Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol)	<5	0%
Arall	NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig)	0	0%
	Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion)	<5	0%
Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys')		2,477	
Nid yw'n hysbys		0	
Cyfanswm (yn cynnwys 'nid yw'n hysbys')		2,477	

Tabl 7: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol

Math o ddarpariaeth addysgol (ni waeth a ydynt o fewn neu'r tu allan i'r awdurdod lleol)	Nifer y plant byddar	Canran o'r cyfanswm	Canran o'r cyfanswm o blant oedran ysgol (h.y. heb gynnwys plant cyn-ysgol a phobl ifanc ôl 16)
Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig - plant cyn-ysgol	104	4%	
Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol	90	4%	
Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref	15	1%	1%
Darpariaeth prif ffrwd (yn cynnwys ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth ac ysgolion annibynnol)	1,796	72%	80%
Darpariaeth prif ffrwd: darpariaeth adnoddau	204	8%	9%
Ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion byddar	10	0%	0%
Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol	227	9%	10%
Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (ac eithrio colegau chweched dosbarth mewn ysgol)	30	1%	
Arall (e.e. unedau cyfeirio disgyblion, NEET)	<5	0%	
Cyfanswm	2,480*		
Cyfanswm (ac eithrio plant cyn-ysgol a darpariaeth ôl-16 arall ac 'arall')	2,252		

Tabl 8: Dadansoddiad o'r mathau o ddarpariaeth addysgol, yn ôl a ydynt o fewn neu y tu allan i'r awdurdod lleol cartref (lle bo'n hysbys)

Math o ddarpariaeth addysgol	Nifer y plant byddar	Canran o'r cyfanswm
O fewn yr awdurdod lleol cartref	2,407	97%
Y tu allan i'r awdurdod lleol cartref	69	3%
Cyfanswm (ac eithrio 'nid yw'n hysbys' ac 'arall')	2,476	

Amllder Anhwylder ar y Sbectwm Niwropatheg Clywedol (ANSD)

Rhoddodd 13 o wasanaethau ffigur wrth ateb y cwestiwn am nifer y plant oedd ag ANSD yn eu hardal. Yn seiliedig ar yr ymatebion hyn, mae yna 28 o blant byddar yng Nghymru ag ANSD 1% o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu). Mae hyn yn debyg i 2017 lle'r oedd y ffigur yn 1% (ond atebodd bob un o'r 15 awdurdod y cwestiwn hwn yn 2017).

Oherwydd protocolau sgrinio clyw babanod, yr unig ffordd ddibynadwy o ganfod bod babanod yn dioddef o ANSD yw dilyn gweithredoedd profi ar y rheiny sydd wedi bod mewn Unedau Gofal Dwys i'r Newydd-anedig (NICU), ac nis canfyddir gan y sgrinio a ddefnyddir ym mhoblogaeth 'babanod iach'. Cymru oedd y wlad gyntaf ym Mhrydain i gyflwyno sgrinio clyw babanod i bob babi yn 2004. Awgrymir ffigurau a ddarperir trwy'r rhaglen sgrinio clyw babanod bod tua 1 o bob 10 plentyn sydd â byddardod cynhenid yn dioddef o ANSD. Felly mae hyn yn awgrymu bod rhai o'r gwasanaethau'n tangofnodi. Gall hyn fod oherwydd diffyg adnabod ANSD mewn plant byddar hyn - y rhai na chawsant eu sgrinio yn fabanod gan eu bod wedi cael eu geni cyn i sgrinio cael ei gyflwyno i bob babi yn 2004, y 'babanod iach' hynny a basiodd y

sgrinio ac a gafodd eu canfod yn ddiweddarach, yn ogystal â'r rhai sydd â byddardod caffaeledig / cynyddol nad ydynt wedi cael eu profi am ANSD.

Amllder anghenion addysgol arbennig ychwanegol (AAA)

Gofynnwyd i wasanaethau darparu dadansoddiad yn ôl y math o AAA ychwanegol yn defnyddio'r dosbarthiad a amlinellir yn y canllaw priodol yng Nghymru⁵. Nid oedd yn bosib i bob awdurdod rhoi dadansoddiad, ac mewn rhai achosion darparodd gwasanaethau ffigyrau a oedd yn darparu ffigur gwahanol i'r cyfanswm a darparwyd yn wreiddiol.

Tabl 9: Nifer y plant byddar gydag AAA ychwanegol, yn ôl math yr AAA

	Nifer y plant byddar gydag AAA ychwanegol	Canran o blant byddar sydd ag AAA ychwanegol (lle bo'r math o AAA yn hysbys)	Canran o holl blant byddar (cyfanswm wedi'i addasu)
Anawsterau Dysgu Cymedrol	115	20%	5%
Anawsterau Dysgu Cyffredinol	53	9%	2%
Anawsterau Dysgu Difrifol	64	11%	3%
Anawsterau Dysgu Dwys a Lluosog	45	8%	2%
Dyslecsia	6	1%	0%
Dyscalcwlia	<5	0%	0%
Dyspracsia	<5	0%	0%
Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd	16	3%	1%
Anhwylder Sbectrwm Awtistig	42	7%	2%
Anawsterau corfforol a meddygol	87	15%	3%
Nam ar y Golwg	49	9%	2%
Anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu	61	11%	2%
Anawsterau ymddygiad, emosiynol a chymdeithasol	26	5%	1%
Cyfanswm	569		
Nid yw'n hysbys	128		
Cyfanswm yn cynnwys y rheini a adroddwyd "nid yw'n hysbys"	697		

Awgryma'r ffigurau mai Anhawster Dysgu Cymedrol yw'r AAA ychwanegol mwyaf cyffredin, wedi'i ddilyn gan anawsterau Corfforol a meddygol, Anawsterau Dysgu Difrifol, ac anawsterau Lleferydd, iaith a chyfathrebu.

Ar wahân, awgrymodd ymchwil⁶ o 1996 bod 40% o blant byddar â "phroblem glinigol neu ddatblygiadol" arall. Ond mae'r ymchwil hwn yn defnyddio diffiniad eang o "broblemau" ychwanegol (yn cynnwys, er enghraifft, ecsema a pharlys yr ymennydd) tra deallir fel arfer fod AAA yn cyfeirio at achosion pan fod gan blant anhawster neu anabledd dysgu, sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol arbennig arnynt. Mae diffiniad anhawster neu anabledd dysgu yn cynnwys pan fydd gan blant anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r math a darperir yn gyffredinol ar gyfer plant o'r un

⁵ www.gov.uk/guidance/school-census#school-census-documents (ar gael yn Saesneg yn unig)

⁶

Fortnum H. Davies (1997) Epidemiology of permanent childhood hearing impairment in Trent Region, 1985-1993. *British Journal of Audiology*, 1997,31,409-446

oedran mewn ysgolion o fewn ardal yr awdurdod lleol. Felly unwaith eto, nid yw'n bosib cymharu'r ffigurau yn union gyda'r rheini gan CRIDE.

Plant byddar â mewnbliadau yn y cochlear a chymhorthion clyw drwy asgwrn

Adroddodd gwasanaethau fod 192 o blant (8% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar) ag o leiaf un mewnbliad yn y cochlear, cynnydd bach ar 6% pan ofynnwyd y cwestiwn hwn yn 2017.

Mae plant sydd â cholled clyw difrifol i lwyr yn gymwys am fewnbliadau yn y cochlear. Gwelwyd yn gynharach mewn tabl pump bod yna 576 o blant gyda cholled clyw difrifol neu lwyr. Er bod hyn yn fras amcan, gellir amcangyfrif bod gan 33% o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr o leiaf un mewnbliad yn y cochlear. Pe baem yn cymryd bod bron bob plentyn gyda mewnbliad yn y cochlear yw'r rheini gyda cholled clyw llwyr, byddai'r canran hwn yn codi i 74%.

Adroddodd gwasanaethau hefyd fod 65 o blant (3% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar) â chymorth drwy asgwrn. Mae hyn yr un peth â phan ofynnwyd y cwestiwn yn 2017 ac oedd gan 3% o blant gymorth drwy asgwrn.

Ieithoedd ychwanegol

Gofynnwyd i wasanaethau darparu cyfanswm y plant byddar sy'n byw yn yr ardal sy'n defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref. Atebodd 11 o wasanaethau'r cwestiwn hwn, yn adrodd fod 161 yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol gartref (6% o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar a gofnodwyd). Mae hyn yn gynydd ers 2017 y tro diwethaf gofynnwyd y cwestiwn hwn, pan fu 83 o blant (3%) yn defnyddio'r Saesneg neu'r Gymraeg fel iaith lafar ychwanegol.

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn i ddarparu dadansoddiad o gyfanswm y plant sydd â **cholled clyw dwyochrol difrifol neu lwyr** sy'n byw yn yr ardal, yn ôl pa **ieithoedd** a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol / lleoliad addysgol arall. Darparodd 13 gwasanaeth rywfaint o wybodaeth i'r cwestiwn hwn.

Tabl 10: Nifer y plant sydd â byddardod difrifol/llwyr, yn ôl pa ieithoedd a ddefnyddir yn bennaf yn yr ysgol/lleoliad addysgol arall

laith	Cyfanswm	Canran o ymatebion (lle bo'n hysbys)
Saesneg llafar	281	66%
Cymraeg llafar	12	3%
Iaith Arwyddion Prydain	25	6%
Saesneg llafar ynghyd â chymorth arwyddion	103	24%
Cymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion	6	1%
Cyfuniad arall	<5	0%
Cyfanswm sy'n hysbys	432*	
Nid yw'n hysbys	<5	
Cyfanswm yn cynnwys nid yw'n hysbys	437*	

Dengys y canlyniadau bod 6% o blant sydd â cholled clyw difrifol neu lwyr yn bennaf yn defnyddio iaith Arwyddion Prydain mewn addysg gyda 25% yn defnyddio'r hyn a ellir ei ddisgrifio fel Saesneg neu Gymraeg llafar ynghyd â chymorth arwyddion. Yn 2017, roedd y ffigurau hyn yn 7% a 34% yn y drefn honno.

Dylid defnyddio gofal yn arbennig wrth edrych ar ganlyniadau'r cwestiwn hwn. Mae hyn oherwydd nododd y 13 gwasanaeth a ymatebodd i'r cwestiwn hwn 437 o blant gyda cholled clyw difrifol neu lwyr. Mae hyn yn llai na'r ffigur o 576 a nodwyd yn gynharach yn yr adroddiad hwn (gweler tabl 5). Dylid pwysleisio hefyd efallai na fyddai defnydd iaith lafar/arwyddion mewn addysg yr un peth â defnydd iaith lafar/arwyddion o fewn y cartref neu ddewis y plentyn bob tro.

Plant byddar sy'n newydd i'r wlad

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd am nifer y plant byddar a wyddys eu bod 'newydd gyrraedd', wedi cyrraedd eu gwasanaeth o'r tu allan i'r DU o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Adroddodd 14 gwasanaeth bod chwe phlentyn byddar newydd gyrraedd. Mae hyn yn llai na 1% (0.2%) o'r cyfanswm wedi'i addasu o blant byddar.

Pobl ifanc byddar ôl-16

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y bobl ifanc byddar a adawodd yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn academiaidd 2017/18. Ymatebodd 12 gwasanaeth y cwestiwn hwn, yn nodi bod 72 o bobl ifanc byddar wedi gadael yr ysgol. Credwn fod y ffigur hwn yn sylweddol is na'r ffigur y byddem yn disgwyl i fod yn gadael ysgol. Er enghraifft, gwelwyd yn gynharach bod yna 919 o blant byddar oedran ysgol, sy'n awgrymu bod tua 180 mewn pob blwyddyn. Mae'n destun pryder ei fod yn ymddangos bod yna nifer fawr o bobl ifanc bod y gwasanaethau ddim yn ymwybodol a ydynt wedi gadael ysgol neu beidio.

Hefyd gofynnwyd am nifer y bobl ifanc byddar hynny a oedd yn meddu ar gynllun pontio a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar, ac adroddodd gwasanaethu fod 33 o bobl ifanc yn meddu ar gynllun. Pontion a gafodd ei lywio gan Athro Plant Byddar (46% o'r bobl ifanc byddar a oedd wedi gadael yr ysgol).

Gofynnwyd i wasanaethau a ydynt yn dilyn cyrchfannau ôl-ysgol pobl ifanc byddar. Dywedodd tri gwasanaeth (20%) eu bod nhw yn eu dilyn, a 12 gwasanaeth (80%) eu bod nhw ddim yn eu wneud. Lle bo gwasanaethau yn dilyn cyrchfannau ôl-ysgol, gofynnwyd iddynt ddarparu dadansoddiad o gyrchfannau'r bobl ifanc byddar a oedd wedi gadael ysgol.

Tabl 11: Cyrchfannau ôl-ysgol

Cyrchfan ôl-ysgol	Nifer y bobl ifanc	Canran (lle bo'n hysbys)
Addysg bellach (coleg)	19	54%
Addysg uwch (prifysgol neu gwrs addysg uwch yn y coleg)	9	26%
Hyfforddi / prentisiaeth	<5	<14%
Cyflogaeth	<5	<14%
Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant	0	0%
Arall	<5	<14%
Cyfanswm	35	
Nid yw'n hysbys	<5	
Ni chedwir y data	0	
*Cyfanswm (yn cynnwys nid yw'n hysbys a lle ni chedwir y data)	40	

*Noder, mae'r cyfanswm yn cynnwys nid yw'n hysbys a lle ni chedwir y data wedi'i dalgrynnu, er mwyn osgoi'r perygl o adnabod grwpiau bach o bobl ifanc byddar.

Gofynnwyd i wasanaethau a ydynt yn cefnogi pobl ifanc byddar mewn addysg bellach neu gyrchfannau ôl-ysgol eraill. Roedd gwasanaethau yn gallu dewis bob opsiwn a oedd yn disgrifio eu cymorth. Nododd 47% o wasanaethau ddim cysylltiad, sydd yn ostyngiad bach ar 54% yn 2017, y tro diwethaf gofynnwyd y cwestiwn hwn.

Tabl 12: Cefnogaeth i bobl ifanc byddar mewn cyrchfannau ôl ysgol

Cefnogaeth	Nifer yr atebion	Canran o bob ymateb
Dim cysylltiad	7	47%
Ie – am ddim yn y man darparu, wedi'i gyllido gan yr awdurdod lleol	3	20%
Ie – pan fydd darparwyr ôl-16 yn ei chomisiynu	1	7%
Ie – pan fydd awdurdod lleol arall sy'n gosod pobl ifanc mewn sefydliad yn eich ardal yn ei chomisiynu yn uniongyrchol	0	0%
Arall	4	27%
Cyfanswm	15	

Lle nododd gwasanaethau 'Arall', gofynnwyd iddynt ddarparu manylion. Roedd atebion yn cynnwys:

- Mae'r gefnogaeth yn ad hoc yn hytrach na wedi'i sefydlu'n glir
- Yn rhannu gwybodaeth gyda Gyrfa Cymru lle bo'n addas i gefnogi pontio i gyrchfannau ôl-ysgol
- Darparu cefnogaeth yn ystod y cyfnod pontio yn unig (y tymor cyntaf, mwy neu lai).

Nifer y plant ar lwythi achos gwasanaethau

Gofynnodd CRIDE hefyd am blant byddar ar lwythi achos gwasanaethau. Defnyddir llwythi achos i olygu plant sy'n derbyn rhyw fath o gymorth **mwyr nag unwaith y flwyddyn**. Mae enghreifftiau o gefnogaeth yn cynnwys addysgu uniongyrchol, ymweliadau i'r teulu neu'r ysgol, cyswllt â'r teulu, ysgol ac athrawon, gwirio teclynnau clyw, ayb. Roedd gwasanaethau hefyd yn gallu cynnwys plant oedd yn derbyn cymorth gan y gwasanaethau ond nad oeddent yn byw o fewn yr un ardal ddaearyddol â'r gwasanaeth hynny. Cynhwysir plant â byddardod dros dro yn y cwestiwn hwn hefyd.

Yn seiliedig ar ymatebion gan 14 gwasanaeth, awgryma ymatebion yr arolwg fod o leiaf 3,265 o blant byddar â byddardod parhaol neu dros dro ar lwythi achos gwasanaethau. Y nifer lleiaf o blant ar lwythi achos oedd 47 a'r uchaf oedd 1,265. Y cyfartaledd oedd 233 o blant. Ymddengys bod hyn yn ostyngiad o 4,258 o blant ar lwythi achos yn 2018, pan dderbyniwyd ymatebion gan bob un o'r 15 gwasanaeth. O achos camgymeriad, ni ddarparodd arolwg CRIDE 2018 ddiffiniad o lwythi achos yn yr arolwg. O ganlyniad i'r camgymeriad hwn, dylid defnyddio gofal arbennig wrth wneud cymariaethau â blynyddoedd blaenorol. Gofynnodd CRIDE i wasanaethau am nifer y plant ar eu llwythi achos a oedd â byddardod dargludol dros dro. Ymatebodd 12 gwasanaeth i'r cwestiwn hwn a chofnodwyd bod yna 1,262 o blant â byddardod dargludol dros dro. Nododd nifer o wasanaethau nid oeddynt bob tro yn gallu gwahaniaethu yn eu cronfeydd data a oedd gan blentyn byddardod dros dro neu barhaol neu nodwyd eu bod nhw ddim yn meddu ar y data hwn.

Os oes yna 2,486 o blant â byddardod parhaol yn byw yng Nghymru (fel yr adroddwyd gan wasanaethau) a 2,003 ohonynt ar lwythi achos gwasanaethau gyda byddardod parhaol, mae yna o leiaf 483 o blant byddar

(19%) sydd ddim yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth mwy nag unwaith y flwyddyn. Nid yw'n dilyn yn awtomatig bod 19% o blant sydd â byddardod parhaol ddim yn derbyn unrhyw gymorth o gwbl; efallai fod nifer fawr ohonynt yn derbyn cefnogaeth unwaith y flwyddyn gan wasanaeth, neu o rywle arall, er enghraifft, gan ysgolion arbennig ar gyfer plant byddar yn Lloegr neu ddarpariaeth adnoddau nad ydynt yn cael eu rheoli gan y gwasanaeth.

Sut mae ffigurau CRIDE 2019 yn cymharu â ffigurau'r Cyfrifiad Ysgol?

Cyfrifiad Ysgol

Mae arolwg CRIDE 2019 yn adrodd fod yna 2,486 o blant byddar yng Nghymru. Ond, mae ffigurau Cyfrif Ysgol Llywodraeth Cymru yn dynodi bod 3,274 o ddisgyblion gyda cholled clyw (o'r rheini mae gan 189 ohonynt nam aml-synwyr). Dylid nodi nad yw data Llywodraeth Cymru bellach yn dangos a yw'r nam ar y clyw yn brif angen neu'n angen eilaidd. Awgryma'r ffigurau hyn fod gwasanaethau yn tangofnodi nifer y plant byddar sydd yn eu hardal yn eu hymatebion i CRIDE.

RHAN 2: Athrawon Plant Byddar a staff arbenigol arall

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio mewn gwahanol leoliadau, yn cynnwys y rheini mewn swydd beripatetig, yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau a/neu'n gweithio mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol.

Mynega'r ffigurau fel swyddi Cyfwerth ag Amser Llawn (CALI); er enghraifft, gall swydd Athro Plant Byddar CALI 0.5 awgrymu bod person yn gweithio fel Athro Plant Byddar am hanner 'wythnos waith' safonol. Dylid nodi, er gofynnwyd am ffigurau CALI, tybiwn fod, mewn rhai achosion, darparwyd ffigurau am nifer y bobl unigol.

Cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru yn gweithio mewn swydd beripatetig, mewn darpariaethau adnoddau a/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol yw o leiaf 57 CALI.

Yn gyffredinol, mae yna o leiaf 66 athro sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar yng Nghymru. Llenwir 86% o'r swyddi hyn gan Athro Plant Byddar cymwysedig gyda'r swyddi sy'n weddill wedi'u llenwi gan athrawon sydd o dan hyfforddiant (14%).

Ar adeg cwblhau'r arolwg, ni adroddwyd unrhyw swydd wag.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad yn ôl y math y lleoliad.

Tabl 13: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth yn gyffredinol

	Yn gweithio'n bennaf fel Athro Plant Byddar peripatetig (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n bennaf mewn darpariaeth adnoddau (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)	Yn gweithio'n hyblyg fel Athro Plant Byddar peripatetig, mewn darpariaeth adnoddau ac/neu mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol (cyfanswm a chanran)	Swyddi Athro Plant Byddar yn gyffredinol (cyfanswm a chanran)
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	29.4 (81%)	25.1 (93%)	1 (100%)	1.5 (%)	57 (86%)
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	7 (19%)	2 (7%)	0 (0%)	0 (0%)	9 (14%)
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)	0 (0%)
Cyfanswm	36.4 (100%)	27.1 (100%)	1 (100%)	1.5 (100%)	66 (100%)

Mae'r tabl canlynol yn edrych ar y newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig mewn cyflogaeth a swyddi dros flynyddoedd olynol.

Dylid nodi bod yn 2017, dechreuodd CRIDE ofyn am Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. O ganlyniad, nid yw'n bosib cymharu ffigurau 2017 ymlaen gyda'r rheini o flynyddoedd blaenorol yn uniongyrchol.

Fel y gosodwyd yn gynharach, wrth wneud cymariaethau o flwyddyn i flwyddyn, dylid nodi gall anghysondebau ymddangos yn yr ymatebion o flwyddyn i flwyddyn. Mae CRIDE yn gwneud pob ymdrech i ofyn am unrhyw anghysondebau sy'n ymddangos yn arbennig o ryfedd. Ond, nad yw gwasanaethau ac ysgolion bob tro yn ymateb i ymholiadau o'r fath.

Tabl 14: Newidiadau yn nifer yr Athrawon Plant Byddar o flwyddyn i flwyddyn

	Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth	Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant	Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth	Nifer y swyddi gwag	Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)
2019	57.0	66.0	66.0	0	66.0
2018	56.425	61.825	61.825	1	62.825
2017	57.63	60.33	60.73	3.9	64.63
2016	65.45	69.25	69.25	1	70.25
2015	69.86	73.66	74.26	0.8	75.06
2014	67	69.2	70.2	0.6	70.8
2013	66.5	71.5	71.5	3	74.5
2012	91.75	100.55	100.55	0	100.55
2011	71.95	73.95	75.95	0	75.95

Tabl 15: Newid canrannol yn nifer yr Athrawon Plant Byddar

	Newid canrannol dros yr 8 mlynedd diwethaf (rhwng 2010/11 a 2018/19)	Newid canrannol dros y flwyddyn ddiwethaf (rhwng 2017/18 a 2018/19)
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth	-21%	1%
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol mewn cyflogaeth neu o dan hyfforddiant	-11%	7%
Nifer yr athrawon sy'n gweithio fel Athrawon Plant Byddar mewn cyflogaeth	-13%	7%
Nifer y swyddi Athrawon Plant Byddar (yn cynnwys swyddi gwag)	-10%	5%

Edrychodd CRIDE ar sawl gwasanaeth oedd wedi gweld newid i nifer yr Athrawon Plant Byddar o fewn y flwyddyn ddiwethaf a gwelwyd bod chwe gwasanaeth (40%) wedi gweld cynnydd, wyth (53%) gwasanaeth heb weld unrhyw newid tra bod un gwasanaeth (7%) wedi gweld lleihad.

Gofynnodd CRIDE a oedd gwasanaethau wedi cael anawsterau wrth recriwtio Athrawon Plant Byddar neu ddarparu athrawon llanw dros y 12 mis diwethaf. Cofnododd pedwar gwasanaeth (29%) anawsterau wrth recriwtio i swydd barhaol tra cofnododd pedwar (29%) ddim anawsterau, gyda chwe gwasanaeth (43%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt. Cofnododd chwe gwasanaeth (43%) anawsterau wrth recriwtio athrawon llanw a thri (12%) yn cofnodi dim anawsterau, gyda phum gwasanaeth (36%) yn nodi bod y cwestiwn hwn yn amherthnasol iddynt. Wrth gyfuno'r ffigyrau, cofnododd saith gwasanaeth (47%) anawsterau wrth recriwtio i **naill ai** swyddi parhaol neu lanw.

Roedd sylwadau gan wasanaethau yn cynnwys y themâu hyn:

- diffyg ymgeisydd cymwysedig yn gyffredinol
- heb dderbyn unrhyw geisiadau ar gyfer swydd Athro Plant Byddar a gyhoeddwyd
- gorfod penodi athro i ddechrau'r hyfforddi ar gyfer y cymhwyster gorfodol
- diffyg ymgeisydd â'r cymwysterau priodol sy'n gallu darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg

- diffyg Athrawon Plant Byddar cymwysedig ar gyfer swyddi llanw
- gorfod cael cymorth gan lywodraethau cyfagos i lenwi swyddi llanw

Cymwysterau ychwanegol Athrawon Plant Byddar

Gofynnodd CRIDE hefyd am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd â chymhwyster arbenigol ôl-raddedig mewn cymorth blynyddoedd cynnar i blant byddar. Yn gyffredinol, doedd dim Athrawon Plant Byddar a oedd yn meddu ar y cymhwyster hwn. Yn 2017, gofynnwyd cwestiwn tebyg wedi'i eirio ychydig bach yn wahanol, gofynnwyd i wasanaethau am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd â chymhwyster arbenigol ychwanegol mewn cefnogaeth blynyddoedd cynnar, ac adroddwyd bod gan 3.0 Athro Plant Byddar CALL yn meddu ar y cymhwyster hwn. Ond, oherwydd y gwahaniaeth mewn geiriad y cwestiwn, ni ddylid cymharu'r ddau ffigur.

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd yn meddu ar gymhwyster arbenigol ychwanegol fel awdiolegydd addysgol. Roedd 0.6 Athro Plant Byddar CALL yn meddu ar gymhwyster arbenigol ychwanegol fel awdiolegydd addysgol, yn gweithio o fewn y gwasanaeth peripatetig. Roedd hyn o fewn un gwasanaeth. Golyga hyn fod 1% o Athrawon Plant Byddar i gyd yn meddu ar gymhwyster ychwanegol fel awdiolegydd addysgol. Mae hyn yn lleihad ar 3% y tro diwethaf gofynnwyd y cwestiwn yn 2017.

Athrawon Plant Byddar yn darparu cymorth drwy gyfrwng y Gymraeg

Gofynnwyd i wasanaethau hefyd am nifer yr Athrawon Plant Byddar oedd yn gallu darparu cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn ôl y gofyn. Yn gyffredinol, cofnodwyd bod 14.0 Athro Plant Byddar CALL yn gallu gwneud hyn, sy'n dod i 21% o'r cyfanswm o swyddi Athrawon Plant Byddar. Roedd 54% o'r rhain yn gweithio yn bennaf yn y gwasanaeth peripatetig, gyda saith gwasanaeth yn cael Athrawon Plant Byddar Cymraeg. Roedd 43% yn gweithio yn bennaf mewn darpariaethau adnoddau. Hefyd roedd 0.5 Athro Plant Byddar CALL yn gweithio'n hyblyg o fewn un gwasanaeth.

Mae'r adrannau dilynol yn edrych yn fwy manwl ar nifer yr Athrawon Plant Byddar a chyflogir mewn swydd beripatetig neu mewn darpariaeth adnoddau.

Athrawon Plant Byddar mewn swydd beripatetig

Holodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol yn Ionawr 2019. Hynny yw, sawl Athro Plant Byddar 'ymweld' a oedd yn gweithio ym mhob gwasanaeth. Mae Athrawon Plant Byddar peripatetig fel arfer yn ymweld â phlant byddar mewn darpariaeth 'anarbenigol' – h.y. plant byddar oedran cyn ysgol, plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn ysgol arbennig nid ar gyfer plant byddar yn benodol.

Tabl 16: Nifer yr Athrawon Plant Byddar ymweld mewn cyflogaeth

	Nifer yr athrawon	Canran	Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	29.4	81%	14
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	7	19%	6
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	36.4		

Mae'r cyfanswm o 36.4 Athro Plant Byddar peripatetig CALL wedi cynyddu tipyn bach o 9% o 33.5 yn 2018.

Yn nhermau Athrawon Plant Byddar peripatetig cymwysedig, amrywiodd y ffigurau o fewn pob gwasanaeth o 0 i 5.1 CALL. Mae naw gwasanaeth yn cyflogi dau Athro Plant Byddar peripatetig neu lai, ac o'r rheini, roedd chwe gwasanaeth yn cyflogi un Athro Plant Byddar peripatetig cwbl gymwysedig neu lai (e.e. 0.5 CALL). Y nifer cyfartalog o Athrawon Plant Byddar peripatetig (gyda'r cymhwyster gorfodol) mewn pob gwasanaeth yw 2.0 CALL.

Proffil oedran Athrawon Plant Byddar peripatetig

Gofynnwyd i wasanaethau am broffil oedran Athrawon Plant Byddar. Roedd hyn mewn ymateb i bryderon parhaus bod nifer yr Athrawon Plant Byddar newydd sy'n cael eu recriwtio yn sylweddol is na nifer yr Athrawon Plant Byddar sydd yn ymddeol o'r proffesiwn. Os yw'n wir, gall hyn arwain at 'wasgfa capasiti' ble na fydd digon o Athrawon Plant Byddar i gwrdd ag anghenion plant byddar yn y dyfodol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos bod 45% o Athrawon Plant Byddar peripatetig dros 50 oed ac felly, yn debygol o ymddeol o fewn y 10 i 15 blwyddyn nesaf.

Tabl 17: Proffil oedran Athrawon Plant Byddar peripatetig

	Nifer yr athrawon peripatetig (CALL)	Canran o'r cyfanswm
49 oed neu'n iau	19.9	55%
Rhwng 50 a 59 oed	15.0	41%
Rhwng 60 a 64 oed	1.4	4%
65 oed neu'n hŷn	0	0%
Cyfanswm	36.3	

Llwythi achos Athrawon Plant Byddar peripatetig

Mae'r adran hon yn edrych ar lwythi achos damcaniaethol pob un o'r Athrawon Plant Byddar gwadd drwy edrych ar nifer y plant byddar sy'n byw mewn ardal ac nad ydynt yn barod mewn darpariaeth arbenigol (ni waeth a ydynt yn derbyn cymorth neu beidio). Mae yna ystod o farnau ar ddefnyddioldeb hyn a'r ffordd orau o gyfrifo'r gymhareb hon. Dylid ystyried:

- gall ardaloedd mawr neu wledig, o reidrwydd, gael mwy o Athrawon Plant Byddar gwadd nag ardaloedd bach a threfol oherwydd yr angen i ddarparu ar gyfer amser teithio
- gall ardaloedd sydd ag uned neu ysgol arbenigol gael llai o Athrawon Plant Byddar gwadd oherwydd aseswyd bod y plant byddar sydd â'r angen mwyaf mewn darpariaeth arbenigol yn barod
- gall ymddangos bod gwasanaethau sydd mewn sefyllfa well i allu cofnodi a chydabod yn ddibynadwy nifer y plant byddar sydd yn eu hardal, yn cynnwys y rheini dros 16 oed, â llwythi achos trymach na gwasanaethau sydd wedi darparu ffigur am nifer y plant byddar maent yn 'gwybod' amdanynt yn unig
- nid yw'r llwyth achos damcaniaethol yn dweud wrthym am y canlyniadau a gyflawnwyd gan blant byddar yn yr ardal.

Yn nhermau syml ac er mwyn cysondeb ar draws pob rhan o Gymru, amcangyfrifa CRIDE y llwythi damcaniaethol trwy rannu nifer y plant sydd â byddardod parhaol sy'n byw mewn unrhyw ardal benodol ac mewn darpariaeth anarbenigol⁷ gyda'r nifer o Athrawon Plant Byddar gwadd cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol.⁸

Dengys canlyniadau arolwg CRIDE fod pob Athro Plant Byddar gwadd (peripatetig) â llwyth achos damcaniaethol o 59 o blant byddar, ar gyfartaledd. Y llwyth achos uchaf oedd 119.5 mewn un ardal. Mae yna bedwar gwasanaeth (27%) lle mae gan bob Athro Plant Byddar gwadd lwyth achos damcaniaethol o 80 o blant byddar neu mwy, ar gyfartaledd, ac o'r rhain mae un gwasanaeth (7%) lle mae 100 o blant byddar neu mwy ar y llwyth achos damcaniaethol, ar gyfartaledd.

Mae'r llwyth achos damcaniaethol wedi gostwng ers 2017 pan oedd gan bob Athro Plant Byddar peripatetig lwyth achos damcaniaethol o 73 plentyn byddar. Yn 2015, y ffigur oedd 71. Gall y newid yn y llwyth achos cyfartalog damcaniaethol gael ei gysylltu â'r gostyngiad a gofnodwyd yn nifer y plant byddar.

Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

Gofynnodd yr arolwg am nifer yr Athrawon Plant Byddar a gyflogwyd mewn darpariaethau adnoddau ar gyfer plant byddar. Gofynnwyd i ymatebwyr i adael allan amser a dreulir ar ddyletswyddau ysgol eraill (fel amser fel Cydlynnydd AAA yr ysgol, er enghraifft).

Tabl 18: Nifer yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau

	Nifer yr athrawon (CALI)	Canran	Nifer y gwasanaethau sydd â staff mewn categori perthnasol
Athrawon Plant Byddar gyda'r cymhwyster gorfodol	25.1	93%	10
Athrawon o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol o fewn 3 blynedd	2	7%	2
Athrawon cymwysedig heb y cymhwyster gorfodol ac nad ydynt o dan hyfforddiant	0	0%	0
Cyfanswm	27.1		

⁷ Mae hyn yn cynnwys: Wedi'u cynorthwyo yn y cartref yn unig – plant cyn-ysgol, Lleoliad blynyddoedd cynnar - plant cyn-ysgol, Wedi'u cynorthwyo yn y cartref – oedran ysgol ac yn derbyn addysg yn y cartref, Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth (yn cynnwys academiâu ac ysgolion rhydd), Ysgolion prif ffrwd annibynnol (nas ariennir gan y wladwriaeth) (er enghraifft, Eton), Ysgolion arbennig eraill, nid ar gyfer plant byddar yn benodol (naill ai a ariennir gan y wladwriaeth neu ysgolion nas cynhelir), Unrhyw ddarpariaeth ôl-16 arall (heb gynnwys colegau chweched dosbarth ysgol), NEET (Nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant) (ôl-16 yn unig), Arall (e.e. Unedau cyfeirio disgyblion), Nid yw'n hysbys. Nid yw hyn yn cynnwys plant byddar mewn ysgolion prif ffrwd gyda darpariaeth adnoddau neu ysgolion arbennig ar gyfer disgyblion.

⁸ Ni chynhwysir unrhyw athrawon sydd yn gweithio fel Athrawon Plant Byddar ond sydd heb gymhwyster ac nad ydynt o dan hyfforddiant.

Mae cyfanswm yr Athrawon Plant Byddar mewn darpariaethau adnoddau wedi cynyddu gan 0.38 (neu 1%) i 27.1 o 26.725 yn 2018.

Wrth gymharu nifer y darpariaethau adnoddau â nifer yr Athrawon Plant Byddar cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant, mae yna gyfartaledd o 1.13 Athrawon Plant Byddar CALL o fewn pob darpariaeth adnoddau. Nid yw'r ffigur hwn yn ystyried nifer y plant byddar mewn darpariaeth adnoddau.

Athrawon Plant Byddar yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol

Gofynnodd CRIDE i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar yn gweithio yn bennaf mewn coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Adroddodd un gwasanaeth bod ganddynt 1.0 Athro Plant Byddar CALL gyda'r cymhwysedd gorfodol yn gweithio yn y modd hwn. Adroddwyd yr un peth yn 2018.

Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig a lleoliadau addysg eraill

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd ganddynt Athrawon Plant Byddar yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig, darpariaethau adnoddau ac ysgolion/colegau arbennig nad ydynt ar gyfer plant neu bobl ifanc byddar yn benodol. Adroddodd dau wasanaeth bod ganddynt, gyda 1.5 Athro Plant Byddar CALL gyda'r cymhwysedd gorfodol yn gweithio yn y modd hwn. Mae hyn yn gynnydd ar 0.6 CALL yn 2018.

Staff arbenigol arall

Awgryma ymatebion yr arolwg fod yna 100.55 staff cymorth arbenigol arall, heblaw am Athrawon Plant Byddar, yn cefnogi plant byddar yng Nghymru, a 17% o'r rhain yn gweithio yn y gwasanaeth peripatetig, ac 81% ohonynt yn gweithio mewn darpariaethau adnoddau, ac 1% yn gweithio'n hyblyg ar draws gwasanaethau peripatetig a darpariaethau adnoddau.

Tabl 19: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl swydd

	Peripatetig		Darpariaethau adnoddau		Yn gweithio'n hyblyg		Cyfanswm
	Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)	Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol	Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)	Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol	Nifer y staff (cyfwerth ag amser llawn)	Nifer y gwasanaethau gyda staff mewn categori perthnasol	
Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb	13.9 (17%)	8	65.75 (81%)	11	1.5 (2%)	2	81.15
Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb	1.1 (7%)	2	14.6 (93%)	4	0 (0%)	0	15.7
Dehonglwyr BSL/Saesneg wedi'u cofrestru gyda'r NRCPD	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0
Hyfforddwyr byddar / Modelau rôl byddar/ Hyfforddwyr iaith arwyddion ayb	0 (0%)	0	1 (100%)	1	0 (0%)	0	1
Technegwyr, ayb	1.5 (100%)	2	0 (0%)	0	0 (0%)	0	1.5
Therapyddion lleferydd ac iaith	0 (0%)	0	0.2 (100%)	1	0 (0%)	0	0.2
Gweithwyr cefnogi teuluoedd / Swyddogion cyswllt	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0
Gweithwyr cymdeithasol / Gweithwyr cymdeithasol i blant byddar	1 (100%)	1	0 (0%)	0	0 (0%)	0	1
Ffisiotherapydd/ Therapydd galwedigaethol	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0
Arall	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0 (0%)	0	0
Cyfanswm	17.5 (17%)		81.55 (81%)		1.5 (1%)		100.55

Mae'r tablau dilynol yn edrych ar unrhyw newidiadau ers 2011 mewn Cynorthwywyr addysgu a gweithwyr cymorth cyfathrebu. Nid oedd yn bosib dadansoddi rolau eraill oherwydd newidiadau mewn categorïau dros y flwyddyn neu lle'r oedd y niferoedd yn rhy isel i alluogi dadansoddiad ystyrllon.

Tabl 20: Nifer y staff cymorth arbenigol, yn ôl rôl a blwyddyn

	Nifer y staff yn 2010/11	Nifer y staff yn 2011/12	Nifer y staff yn 2012/13	Nifer y staff yn 2013/14	Nifer y staff yn 2014/15	Nifer y staff yn 2015/16	Nifer y staff yn 2016/17	Nifer y staff yn 2018/19
Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb	57.8	72	68.9	79.5	73.4	75.3	69.6	81.15
Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb	7	6.5	10	3.0	7.2	7.8	13.6	15.7

Tabl 21: Newid canrannol yn nifer y staff cymorth arbenigol

	Newid canrannol rhwng 2010/11 a 2018/19	Newid canrannol rhwng 2016/17 a 2018/19
Cynorthwywyr addysgu / Cynorthwywyr cymorth dysgu ayb	40%	17%
Gweithwyr cymorth cyfathrebu / Cyfathrebwyr ayb	124%	15%

RHAN 3: Cefnogaeth a ddarperir

Ble y lleolir gwasanaethau

Gofynnwyd i wasanaethau ble y lleolir y gwasanaeth peripatetig. Dywedodd pob un o'r gwasanaethau (100%) ei fod wedi'i leoli o fewn yr awdurdod lleol.

Penaethiaid gwasanaethau

Gofynnwyd a rheolir Athrawon Plant Byddar peripatetig o fewn y gwasanaeth gan rywun sydd yn Athro Plant Byddar cymwysedig neu sydd o dan hyfforddiant i ddod yn Athro Plant Byddar cymwysedig. Nododd deg gwasanaeth (67%) eu bod nhw, a phum (33%) gwasanaeth eu bod nhw ddim. Lle na reolir gwasanaethau gan Athro Plant Byddar cymwysedig neu Athro Plant Byddar sydd o dan hyfforddiant, gofynnwyd am rôl y person sy'n rheoli'r gwasanaeth. Roedd atebion yn cynnwys:

- Pennaeth ADY/Arweinydd Tîm ADY
- Athro i Blant gyda nam ar eu golwg cymwysedig
- Athro anawsterau cyfathrebu lleferydd ac iaith arbenigol uwch / Arweinydd tîm cymorth dysgu

Nifer y darpariaethau adnoddau

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y darpariaethau adnoddau (naill ai mewn ysgolion prif ffrwd neu arbennig) yn eu hardal. Roedd 12 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd. Roedd gan ddeg gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol gynradd yn eu hardal. Roedd 12 darpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd. Roedd gan ddeg gwasanaeth o leiaf un ddarpariaeth adnoddau ar gyfer plant oedran ysgol uwchradd yn eu hardal.

Rhoddodd hyn gyfanswm o 24 darpariaeth adnoddau ledled Cymru. Mae hyn yn ostyngiad o 2018 pan adnabuwyd 25 o ddarpariaethau adnoddau gan CRIDE.

Gofynnwyd i wasanaethau am nifer y darpariaethau adnoddau a oedd dan arweiniad Athro Plant Byddar cymwysedig – roedd hyn yn berthnasol i 18 (75%) o'r darpariaethau adnoddau. Lle darparodd gwasanaethau sylwadau ar hyn, roedd sylwadau yn cynnwys fod y darpariaethau adnoddau yn cael eu rheoli gan:

- athro o dan hyfforddiant ar gyfer y cymhwyster gorfodol
- rheolwr y gwasanaeth.

Dywedodd un gwasanaeth fod Athro Plant Byddar peripatetig yn ymweld â'r darpariaethau adnoddau.

Meini prawf cymhwyster/fframweithiau

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd unrhyw newidiadau wedi bod i'u dyraniad cymorth rhwng blynyddoedd academiaidd 2017/18 a 2018/19. Adroddodd saith gwasanaeth (47%) fod newidiadau wedi bod ac wyth (53%) yn adrodd dim newidiadau.

Lle bo gwasanaethau wedi cofnodi bod newidiadau wedi bod, roedd y rhain yn cynnwys:

- gorfod llenwi swydd llawn amser gyda swydd rhan amser dros dro

- Athro Plant Byddar o dan hyfforddiant yn cymryd lle Athro Plant Byddar cymwysedig
- oriau ychwanegol dros dro yn dod i ben
- oriau o gymorth o dan arolwg, gyda golwg ar efallai cynyddu'r cymorth i'r ganolfan adnoddau lle mae yna nifer cynyddol yn ei mynychu
- penodi gweithwyr cymorth arbenigol i gefnogi'r gwasanaeth
- newid i'r ffordd mae plant gyda byddardod dros dro yn cael eu cefnogi

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn defnyddio Fframwaith Cymhwyster NatSIP ar gyfer Sgorio Lefelau Cymorth (2017) i helpu penderfynu ar lefel y cymorth a ddarperir gan Athrawon Plant Byddar i blant. Dywedodd pob un o'r 15 gwasanaeth (100% o wasanaethau) eu bod nhw'n ei ddefnyddio.

Gofynnwyd pa fatricsau dyraniad cymorth oedd yn disgrifio'r hyn oeddynt wedi'i ddefnyddio.

Tabl 22: Matricsau dyraniad cymorth NatSIP a ddefnyddir gan wasanaethau

	Nifer y gwasanaethau	Canran
Enghraifft 1	5	33%
Enghraifft 1 – ond wedi'i addasu	1	7%
Enghraifft 2	7	47%
Enghraifft 2 – ond wedi'i addasu	1	7%
amh – defnyddiwn fatrics dyraniad cymorth gwahanol neu ddull gwahanol.	1	7%
Cyfanswm	15	

Lle dywedodd gwasanaeth ei fod yn defnyddio dull gwahanol, nodwyd bod fframwaith NatSIP wedi cael ei ddefnyddio ond roedd prinder staff wedi gwneud hyn yn heriol.

Canlyniadau

Gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt yn casglu data ar ganlyniadau a gyflawnwyd gan blant byddar ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4. Dywedodd pedwar gwasanaeth (27% o wasanaethau) eu bod nhw, ar gyfer plant byddar i gyd sy'n byw o fewn yr awdurdod lleol neu awdurdodau lle mae eu gwasanaethau yn gweithredu. Dywedodd pedwar gwasanaeth (27% o wasanaethau) eu bod nhw, ond dim ond ar gyfer plant sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaeth. Dywedodd saith gwasanaeth (47% o wasanaethau) eu bod nhw ddim.

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn a oedd y data hwn yn cael ei rhannu gyda'r Gweithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) yn eu hardal. O'r wyth gwasanaeth a ddywedodd eu bod nhw'n casglu'r data hwn uchod, dywedodd un gwasanaeth (13% o wasanaethau) ei fod yn rhannu'r data hwn gyda'r CHSWG yn ei ardal, a saith gwasanaeth (88% o wasanaethau) yn dweud eu bod nhw ddim.

Safonau ansawdd

Gofynnwyd i wasanaethau nodi pa safonau ansawdd neu adnoddau a ddefnyddir ganddynt er mwyn archwilio neu wella ymarfer.

Tabl 23: Safonau ansawdd ac adnoddau a ddefnyddir gan wasanaethau

	Nifer y gwasanaethau	Canran o wasanaethau
NatSIP: Safonau Ansawdd i Wasanaethau Cymorth Synhwyraidd yn Lloegr (2016)	14	93%
NAFWC 34/2005 – Safonau Ansawdd ar gyfer Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar y Synhwyrâu (Cymru) (2005)	5	33%
Safonau Ansawdd NDCS: Cymorth blynyddoedd cynnar i blant sydd â cholled clyw, o 0 i 5 oed (Lloegr)	9	60%
Safonau ansawdd rhaglen sgrinio clyw babanod (Cymru)	7	47%
Pecyn Cymorth Gwella Ansawdd NatSIP (2016)	3	20%
Yr Adran Iechyd: Pobl Byddar-ddall: Canllaw i awdurdodau lleol (2104) (Lloegr)	1	7%
Arall	1	7%

Lle ymatebodd gwasanaeth ‘arall’ nodwyd eu bod yn defnyddio deunyddiau Cymorth Cynnar.

Wedyn gofynnwyd i wasanaethau a oeddynt wedi rhannu canfyddiadau unrhyw archwiliadau o’r fath neu unrhyw waith a oeddynt wedi’i wneud mewn perthynas â’r safonau ansawdd uchod gyda’r Gweithgor Gwasanaethau Clyw Plant (CHSWG) yn eu hardal dros y flwyddyn ddiwethaf. Dywedodd pedwar gwasanaeth (27%) eu bod nhw wedi ei wneud, ac 11 (73% o wasanaethau) eu bod nhw ddim wedi ei wneud.

Trefniadau cyllido

Gofynnwyd i wasanaethau sut y cyllidir gwasanaethau cymorth arbenigol peripatetig ar gyfer plant 5 i 16 oed. Atebodd 14 gwasanaeth, a ni atebodd un gwasanaeth y cwestiwn hwn.

Tabl 24: Cyllido’r gwasanaeth peripatetig

	Nifer y gwasanaethau	Canran
Wedi’i reoli’n ganolog gan yr Awdurdod Lleol (gan gynnwys arian a reolir gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer prynu gwasanaethau cymorth clyw gan Awdurdodau Lleol eraill, neu asiantaethau allanol e.e. SENSE)	14	93%
Wedi’i ddirprwyo i ysgol arbennig neu ysgol prif ffrwd sydd â darpariaeth adnoddau sydd wedyn yn darparu allgymorth i ysgolion eraill	0	0%
Wedi’i ddirprwyo yn gyfan gwbl i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy’n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o’r Awdurdod Lleol	1	7%
Wedi’i ddirprwyo’n rhannol i ysgolion unigol o fewn yr Awdurdod Lleol sy’n penderfynu a ydynt am brynu cymorth arbenigol o’r Awdurdod Lleol (e.e. “gwasanaethau a fasnachir” ar gyfer plant heb ddatganiad AAA)	0	0%
Arall	0	0%

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn a oeddynt yn codi tâl am ddarparu gwasanaethau i unrhyw blant neu bobl ifanc sydd â datganiad AAA mewn gwahanol leoliadau addysg.

Tabl 25: Codi tâl am wasanaethau ar gyfer plant gyda datganiad AAA

	Nifer y gwasanaethau	Canran y gwasanaethau
Nid ydyw'r gwasanaeth yn codi tâl am unrhyw un o'r lleoliadau isod	14	93%
Lleoliad blynyddoedd cynnar	0	0%
Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth	0	0%
Ysgolion annibynnol prif ffrwd	1	7%
Coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	0	0%
Darparwyr ôl-16 eraill	1	7%
Arall	0	0%

Gofynnwyd i wasanaethau wedyn a oeddynt yn codi tâl am ddarparu gwasanaethau i unrhyw blant neu bobl ifanc sydd heb ddatganiad AAA mewn gwahanol leoliadau addysg.

Tabl 26: Codi tâl am wasanaethau ar gyfer plant heb ddatganiad AAA

	Nifer y gwasanaethau	Canran y gwasanaethau
Nid ydyw'r gwasanaeth yn codi tâl am unrhyw un o'r lleoliadau isod	13	87%
Lleoliad blynyddoedd cynnar	0	0%
Ysgolion prif ffrwd a ariennir gan y wladwriaeth	0	0%
Ysgolion annibynnol prif ffrwd	1	7%
Coleg neu ysgol arbennig nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	0	0%
Darparwyr ôl-16 eraill	1	7%
Arall	0	0%

Cynlluniau Datblygu Unigol

Gofynnwyd i wasanaethau a oedd Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) anstatudol wedi'u dosbarthu i unrhyw blant byddar yn yr ardal. Dywedodd pedwar gwasanaeth (29%) ie, dywedodd saith gwasanaeth (50%) na, ac roedd tri gwasanaeth (21%) yn ansicr. Lle dywedodd gwasanaethau eu bod nhw wedi cael eu defnyddio, gofynnwyd iddynt ddarparu manylion pellach. Roedd gwybodaeth a ddarparwyd yma yn cynnwys:

- roedd pob ymateb yn dangos eu bod nhw wedi defnyddio CDU safonol yr awdurdod lleol
- dywedodd dau wasanaeth fod datganiad weithiau yn cael ei ddarparu ochr yn ochr â'r CDU
- dywedodd un gwasanaeth ei fod wedi defnyddio CDU safonol oedd wedi'i ddatblygu gan yr ysgol lle mae plentyn wedi'i leoli, gydag a hefyd heb ddatganiadau.

RHAN 4: Cefndir a methodoleg

Mae CRIDE yn gonsortiw sy'n dod ag ystod o sefydliadau ac unigolion sydd â diddordeb cyffredin mewn gwella deilliannau addysgol plant byddar trwy ymchwil, at ei gilydd. Ar adeg anfon yr arolwg allan, yr oedd cynrychiolwyr yn cynnwys: Cymdeithas Brydeinig Athrawon Pobl Fyddar (BATOD), City, Prifysgol Llundain, ymgynghorwyr ag arbenigedd mewn byddardod, Sefydliad y Glust, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Partneriaeth Genedlaethol Nam ar y Synhwyr (NatSiP), cyn-bennaeth Ysgol Frank Barnes i Blant Byddar, Ysgol Mary Hare, y gwasanaeth addysg arbenigol i blant byddar yng Nghaint a Norfolk, Prifysgol Caeredin, Prifysgol Leeds a Choleg Prifysgol Llundain.

Dyluniwyd a chynlluniwyd yr arolwg gan aelodau CRIDE. Mae arolwg CRIDE yn defnyddio arolygon byrrach a llawn bob yn ail flwyddyn. Yn 2019, cyhoeddwyd arolwg llawn.

Dosbarthwyd yr arolwg i wasanaethau yng Nghymru ym mis Ionawr 2019 gan staff Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar ar ran CRIDE. Gofynnwyd i wasanaethau ymateb erbyn 26 Ebrill 2019. Lle na fu ymateb erbyn y dyddiad hwn, cysylltwyd â gwasanaethau trwy e-bost a/neu ffôn gan aelodau CRIDE.

Amlinellir y tabl isod cyfraddau ymateb yn ôl pob cyfnod.

Tabl 27: Cyfradd ymateb i arolwg CRIDE yn ôl gwasanaethau

	Nifer yr ymatebion	Cyfanswm cronus
Dyddiad cau cyntaf – 26 Ebrill 2019	11	11
Yr ail ddyddiad cau ar ôl cyswllt	4	15

Roedd yn bosib i wasanaethau ymateb trwy gwblhau dogfen Word o'r arolwg. Ymgwymerodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar â'r rhan fwyaf o'r dasg o ddadansoddi'r canlyniadau, gan ddefnyddio Excel, a llunio'r adroddiad, gyda chyfarwyddyd a chaniatâd gan aelodau CRIDE.

Hoffai CRIDE ddiolch i'r holl wasanaethau am gymryd yr amser i gwblhau'r arolwg hwn ac am eu sylwadau a'u hadborth gwerthfawr, a ddefnyddir i lywio cynllun arolygon yn y dyfodol. Defnyddir canlyniadau'r arolwg hwn ar gyfer ymchwil, i ddylanwadu ar bolisiau'r llywodraeth ac i ymgyrchu er mwyn diogelu cyllid a gwasanaethau ar gyfer plant byddar.

Os oes unrhyw adborth neu gwestiynau gennych am y canlyniadau, cysylltwch â cride@ndcs.org.uk.

Atodiad: Gwybodaeth yn ôl awdurdod lleol

Amlinellir y tabl hwn rhai data unigol gan wasanaethau. Gofynnwyd i awdurdodau lleol i ddarparu'r ffigurau am nifer y plant ac Athrawon Plant Byddar ar Ionawr 31 2019.

Noder lle mae nifer y plant byddar mewn unrhyw gategori yn llai na 5, ymddengys '<5'.

Mae ffigurau am Athrawon Plant Byddar yn cynnwys pob Athro Plant Byddar a nodwyd gan wasanaethau, yn cynnwys Athrawon Plant Byddar sydd yn meddu ar y cymhwyster gorfodol (CG) ac Athrawon Plant Byddar sydd o dan hyfforddiant am y CG neu sydd yn bwriadu ymgymryd â'r hyfforddiant o fewn tair blynedd.

Tabl 28: Data yn ôl awdurdod lleol

	Nifer y plant â byddardod parhaol sy'n byw o fewn yr ardal ddaearyddol lle mae eich gwasanaeth yn gweithredu	Nifer y plant â byddardod parhaol neu dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Nifer y plant â byddardod dros dro sydd ar lwyth achos eich gwasanaeth	Athrawon Plant Byddar sydd yn y gwasanaeth peripatetig arbenigol	Athrawon Plant Byddar sydd mewn darpariaeth adnoddau	Athrawon Plant Byddar yn bennaf mewn ysgol neu goleg arbennig, nad ydynt ar gyfer plant byddar yn benodol	Athrawon Plant Byddar sy'n gweithio'n hyblyg
Pen-y-bont	175	230	55	2	1	0	0
Caerdydd	196	No answer	No answer	6	6	0	0
Sir Gaerfyrddin	161	216	54	2.2	3	0	0
Ceredigion	80	80	<5	0.8	1	0	0
Conwy	71	68	12	2	0	0	0
Gwynedd ac Ynys Môn	166	126	12	1.7	0	0	0.5
Merthyr Tudful	55	47	No answer	0	0	0	1
Castell-nedd Port Talbot	110	195	76	2	3	0	0
Gogledd Ddwyrain Cymru (Sir y Fflint, Sir Dinbych, Wrecsam)	308	311	59	3.4	3.8	0	0
Sir Benfro	70	98	29	1	0	0	0
Powys	110	118	18	2.6	0	0	0
Rhondda Cynon Taf	224	122	No answer	3.2	1	1	0
De Ddwyrain Cymru (Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Torfaen, Casnewydd)	396	1265	869	6.5	4.8	0	0
Dinas Abertawe	254	304	50	2	1.5	0	0
Bro Morgannwg	110	85	24	1	2	0	0